# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 2**

PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

**PENNOD 1**

Y PŴER CYFFREDINOL

VALID FROM 01/11/2021

**25 Terfynau'r pŵer cyffredinol**

(1) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn galluogi awdurdod lleol cymhwysol i wneud unrhyw beth nad yw'r awdurdod yn gallu ei wneud yn rhinwedd cyfyngiad cyn cychwyn.

(2) Nid yw'r pŵer cyffredinol ychwaith yn galluogi awdurdod lleol cymhwysol i wneud unrhyw beth nad yw'r awdurdod yn gallu ei wneud yn rhinwedd cyfyngiad ar ôl cychwyn y mynegir ei fod yn gymwys—

(a) i'r pŵer cyffredinol,

(b) i holl bwerau'r awdurdod, neu

(c) i holl bwerau'r awdurdod ond gydag eithriadau nad ydynt yn cynnwys y pŵer cyffredinol.

(3) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i wneud nac i wneud newidiadau i—

(a) trefniadau o fath a wneir, neu y caniateir eu gwneud, gan neu o dan Ran 6 o Ddeddf 1972 (cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol);

(b) trefniadau o fath a wneir, neu y caniateir eu gwneud, gan neu o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 (trefniadau mewn cysylltiad â gweithrediaethau etc.);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/05/2021. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 25. (See end of Document for details)*

(c) trefniadau contractio allan, neu unrhyw drefniadau eraill nad ydynt yn drefniadau o fewn paragraff (a) neu (b), sy’n awdurdodi person i arfer swyddogaeth awdurdod lleol cymhwysol.

(4) Yn yr adran hon—

ystyr “cyfyngiad ar ôl cychwyn” (“*post-commencement limitation*”) yw gwaharddiad, terfyn neu gyfyngiad arall a osodir yn benodol gan ddarpariaeth—

(a) mewn Deddf gan Senedd Cymru neu Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig sy’n cael ei phasio ar ôl y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf hon;

(b) mewn offeryn—

(i) a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys y Ddeddf hon), a

(ii) sy’n dod i rym ar y diwrnod y mae adran 24 yn dod i rym mewn perthynas â phrif gynghorau, neu wedi hynny;

ystyr “cyfyngiad cyn cychwyn” (“*pre-commencement limitation*”) yw gwaharddiad, terfyn neu gyfyngiad arall a osodir yn benodol gan ddarpariaeth—

(a) yn y Ddeddf hon;

(b) mewn unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol arall sy’n cael ei phasio cyn y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf hon, neu ar yr un diwrnod;

(c) mewn offeryn—

(i) a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys y Ddeddf hon), a

(ii) sy’n dod i rym cyn y diwrnod y mae adran 24 yn dod i rym mewn perthynas â phrif gynghorau.

(5) At ddibenion is-adran (1), mae adran 111(3) o Ddeddf 1972 (nid yw pwerau atodol awdurdodau lleol yn cynnwys pŵer i godi arian) i’w diystyru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/05/2021. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 25.